# Cymorth Graddau Meistr Ôl-raddedig ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25

## Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

### Cynnig

Gwneud newidiadau i gymorth Graddau Meistr Ôl-raddedig (PGM) fel y nodir isod:

- **Cynyddu** uchafswm y cymorth gan RPIX o £18,770 i £18,950, trwy gynyddu swm y benthyciad. Mae hyn yn unol â pholisi sefydledig.
- **Dileu'r** grant sylfaenol a grant cyfrannu at gostau o'r pecyn cymorth PGM, a rhoi benthyciad yn ei le.

Bydd y newidiadau hyn yn berthnasol i fyfyrwyr newydd yn unig; y rhai sy'n dechrau ar gyrsiau ar 1 Awst 2024 neu wedi hynny.

### Cefndir

Mae rheoliadau cymorth i fyfyrwyr, a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, yn sail i'r system o gymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru a rhai myfyrwyr eraill sy'n astudio yng Nghymru.

Ar gyfer astudiaethau israddedig, ac ar gyfer rhywfaint o astudiaethau ôl-raddedig, mae cymorth ar gyfer costau byw yn gymysgedd o fenthyciadau a grantiau, sy'n cyfateb i'r Cyflog Byw Cenedlaethol, gyda'r lefel uchaf o grant wedi'i chyfeirio tuag at y rhai mwyaf anghenus. Mae pob myfyriwr cymwys yn sicr o gael isafswm lefel o gymorth cynhaliaeth sy'n amrywio yn unig o ran lleoliad yr astudio.

Ar gyfer astudiaethau PGM ac astudiaethau Doethurol ôl-raddedig, mae pecyn cymorth cyfraniad at gostau ar gael i gefnogi myfyrwyr o bob cefndir. Ar gyfer myfyrwyr PGM yn unig, mae'r pecyn cyfrannu at gostau (hyd at uchafswm o £18,770 ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24) yn cynnwys:

- grant 'sylfaenol' o £1,000 sydd ar gael i bob myfyriwr PGM cymwys;
- grant 'cyfraniad at gostau' ychwanegol (prawf modd) hyd at £5,885; a
- benthyciad i wneud y gwahaniaeth rhwng y ddau grant a chyfanswm y cymorth.

*Cymorth PGM yng Nghymru a ledled y DU*

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu pecyn cymorth cyfrannu at gostau PGM hael o'i gymharu â chenhedloedd eraill y DU. Mae'r tabl canlynol yn nodi'r cymorth PGM sydd ar gael ledled y DU ar gyfer 2023/24:

| | Cymru | Lloegr | Yr Alban | Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|
| **Yr uchafswm o gymorth sydd ar gael** | £18,770 Cyfradd cymorth unigol ar gyfer pob myfyriwr. | £12,167 Cyfradd cymorth unigol ar gyfer pob myfyriwr. | Benthyciad ffioedd dysgu o hyd at £7,000 (wedi'i rannu'n gyfartal ar draws pob blwyddyn astudio) Benthyciad Cost Byw o hyd at £4,500 | Benthyciad Ffioedd Dysgu o hyd at £6,500 (wedi'i rannu'n gyfartal ar draws pob blwyddyn astudio). |
| **Uchafswm grant cyfrannu at gostau** | Prawf modd hyd at £5,885 Grant sylfaenol heb brawf modd o £1,000 | Ddim ar gael | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| **Uchafswm benthyciad cyfrannu at gostau** | Hyd at £17,770, yn dibynnu ar swm y grant. | Hyd at £12,167 | Benthyciad Costau Byw ar gyfer astudiaeth amser llawn yn unig o hyd at £4,500 | Ddim ar gael |

*Cymorth PGM ar gyfer 2024/25*

Mae newidiadau i gymorth PGM ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 wedi'u hystyried yn erbyn cefndir o bwysau chwyddiant parhaus sy'n effeithio ar gostau byw i fyfyrwyr a'r angen i ailstrwythuro cyllidebau ar gyfer Llywodraeth Cymru, yn sgil pwysau cyllidebol sylweddol. Bydd y grant cyfrannu at gostau a grant sylfaenol yn cael eu disodli gan fenthyciadau myfyrwyr ad-daladwy. Bydd hyn yn berthnasol i fyfyrwyr newydd yn 2024/25. Bydd uchafswm y cymorth yn cynyddu 0.9%, yn unol â'r polisi presennol.

## Pum ffordd o weithio

Rydym o'r farn bod y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr PGM o 1 Awst 2024 yn gyson â'r pum ffordd o weithio:

### Tymor hir

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau system gyllid fforddiadwy a chynaliadwy i fyfyrwyr yng Nghymru. Er gwaethaf cyfyngiadau sylweddol ar y gyllideb eleni, bydd

newidiadau arfaethedig i gymorth PGM yn sicrhau bod myfyrwyr Cymru yn parhau i gael eu cefnogi'n llawn i gael mynediad at addysg ôl-raddedig a'u hamddiffyn rhag pwysau costau byw parhaus.

## Atal

Mae disodli grant gyda benthyciad yn sicrhau bod cymorth ariannol ymlaen llaw ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig yn cael ei gynnal ar lefel hael, tra bod darparu cyllid benthyciad yn unig yr un fath â'r cymorth mewn rhannau eraill o'r DU. Er y bydd dyledion myfyrwyr yn debygol o gynyddu o ganlyniad, mae ad-dalu benthyciadau myfyrwyr yn ddibynnol ar incwm. Nid yw'n seiliedig ar faint y benthyciad ond yn hytrach ar y swm y mae'r myfyriwr yn ei ennill dros drothwy penodol. Mae natur flaengar y polisi ad-dalu yn lleihau effaith mwy o ddyled o ganlyniad i'r newid hwn.

## Integreiddio

Mae cefnogi myfyrwyr i gael mynediad i addysg uwch, yn cefnogi nodau'r Rhaglen Lywodraethu a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae darparu cymorth PGM yn cyfrannu at y nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn benodol:

- Cymru lewyrchus (poblogaeth fedrus ac addysgedig);
- Cymru sy'n fwy cyfartal (gan alluogi pobl i gyflawni eu potensial); a
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

## Cydweithio a Chyfranogiad

Mae'r holl bartneriaid allweddol sy'n ymwneud â darparu addysg uwch neu gefnogi myfyrwyr i gael mynediad i addysg uwch yn cymryd rhan mewn darparu cyllid myfyrwyr yng Nghymru. Mae rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Prifysgolion Cymru, Colegau Cymru, darparwyr addysg uwch, UCM Cymru a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Maent wedi bod yn hanfodol wrth adlewyrchu anghenion parhaus y sector addysg uwch ac anghenion myfyrwyr.

## Costau a Chynilion

Mewn ymateb i bwysau cyllidebol, mae'r Grant Cymorth i Fyfyrwyr BEL ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 wedi gostwng £63.533m. Mae'r gostyngiad hwn yn cynnwys £53.933m yn ymwneud â Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr a £9.6m yn ymwneud â chael gwared ar Grantiau Ôl-raddedig.

Nodir isod gyfanswm y costau sy'n codi o gael gwared ar yr hawl i grant o gymorth PGM, gan ddisodli'r gwahaniaeth gyda benthyciad a chynyddu'r gyfradd gymorth gyffredinol yn unol â pholisi sefydledig.

| Cyfanswm y costau | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y costau ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 | Cyfanswm y costau wedi'u rhannu yn ôl blwyddyn ariannol | |
| | | Blwyddyn Ariannol 2024/25 | Blwyddyn Ariannol 2025/26 |
| Bron yn arian parod | £5.0m | £3.3m | £1.7m |
| AME | £83.5m | £55.1m | £28.4m |
| Heb fod yn arian parod (RAB) | £0.0m | £0.0m | £0.0m |
| Cyfanswm | £88.5m | £58.4m | £30.1m |

## Mecanwaith

Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) 2024 yn gwneud newidiadau i gymorth PGM fel y nodwyd uchod ac yn berthnasol i gyrsiau sy'n dechrau ar 1 Awst 2024 neu wedi hynny.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) 2024.

# Adran 8: Casgliad

## 8.1 Sut mae'r cynnig wedi effeithio fwyaf ar bobl wrth ei ddatblygu?

Nid oes gofyniad statudol i ymgynghori ar reoliadau cymorth i fyfyrwyr ac ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad mewn perthynas â newidiadau i gymorth ar gyfer astudiaeth Meistr ôl-raddedig. Trafodwyd y cynnig gyda llawer o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys Prifysgolion Cymru a chynrychiolwyr y sector.

Mae dileu’r grant cyfrannu at gostau a’r grant sylfaenol wedi cael ei ysgogi gan bwysau sylweddol i gyllidebau Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r newid yn cael ei gyflwyno cyn blwyddyn academaidd 2024/25 oherwydd y pwysau penodol ar gyllideb eleni.

Mae'r cynnydd i uchafswm y cymorth (0.9% ar gyfer 2024/25) yn unol â pholisi sefydledig.

## 8.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, cadarnhaol a negyddol?

Mae'r system cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru yn cefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig y nodau hynny o 'Gymru lewyrchus' a 'Chymru sy’n fwy cyfartal'. Mae hefyd yn cwrdd ag amcanion o fewn themâu 'dysgu' yn y strategaeth Ffyniant i Bawb, yn enwedig 'cefnogi pobl ifanc i wneud y gorau o'u potensial'. Nid yw'r newidiadau i gymorth PGM yn newid hyn. Ni effeithir ar y cymorth ar gyfer astudiaethau israddedig wrth i Lywodraeth Cymru barhau i flaenoriaethu cymorth i'r rhai sy'n ymgymryd â'u cymhwyster addysg uwch cyntaf.

Nid oes unrhyw effaith ar fyfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau. Mae cymorth PGM yn gynnyrch 'gwneud cais unwaith'; mae'r cymorth fesul cwrs, fel sy'n wir am gymorth i israddedigion, fesul blwyddyn academaidd. Rhaid i fyfyrwyr wneud cais am gymorth heb fod yn hwyrach na diwedd nawfed mis blwyddyn academaidd olaf y cwrs ac felly gellir derbyn ceisiadau gan y rhai sy'n dechrau cwrs cyn 1 Awst 2024 am rai blynyddoedd eto. Bydd y myfyrwyr hyn sy’n parhau â'u hastudiaethau yn cael eu hangori i'r darpariaethau perthnasol yn Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 a byddant yn parhau i fod yn gymwys i gael grantiau.

Bydd y newid yn effeithio ar bob myfyriwr newydd sy'n dechrau cwrs ym mlwyddyn academaidd 2024/25. Ar wahân i Grantiau Myfyrwyr Anabl, ni chynigir unrhyw grantiau i fyfyrwyr Meistr ôl-raddedig. O'i gymharu â'r polisi presennol, bydd myfyriwr yn colli isafswm o £1,000 ac uchafswm o £6,885 mewn cymorth grant, ond gall wneud cais am fenthyciad uwch. Felly, mae dyled y myfyriwr yn debygol o gynyddu. Mae ad-dalu benthyciadau myfyrwyr, gan gynnwys yr un ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig, yn ddibynnol ar incwm: mae myfyrwyr yn talu cyfran sefydlog o'u hincwm (6% yn achos benthyciadau ôl-raddedig) dros swm trothwy o incwm (ar hyn o bryd £21,000 y flwyddyn).

Ni fydd effaith dileu’r grant â phrawf modd yn cael ei phrofi'n gyfartal. Mae'r brif effaith o gael gwared ar y grantiau ar y rhai o aelwydydd incwm isel. Bydd rhai o'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig a allai fod ag incwm isel fel arfer hefyd yn cael eu heffeithio.

Bydd y newidiadau i gymorth PGM yn cael effaith bosibl ar y grwpiau canlynol:

- myfyrwyr o aelwydydd incwm isel;
- myfyrwyr o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig;
- myfyrwyr ag anabledd;
- myfyrwyr â chyfrifoldebau plant/gofalu;
- myfyrwyr benywaidd; a
- myfyrwyr sy'n gadael gofal (o dan 25 oed ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf).

Nid wyddys nifer y myfyrwyr Meistr ôl-raddedig sydd â nodweddion gwarchodedig gan nad oes unrhyw ystadegau perthnasol. Fodd bynnag, rhagwelir cyfanswm o 6,622 o fyfyrwyr Meistr ôl-raddedig a ariennir yn 2024/25. O'r rhain, bydd 2,518 yn fyfyrwyr newydd. Effeithir ar bob myfyriwr newydd drwy ddileu’r grant sylfaenol, ac is-set drwy ddileu'r grant cyfrannu at gostau.

## 8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig yn:

- **gwneud y mwyaf o’r cyfraniad i'n hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**

- **osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Yn gyffredinol, mae addysg uwch yn gwneud cyfraniad mawr tuag at un o'r pum galwad i weithredu yn 'Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi', sef 'Cyflogaeth o Ansawdd Uchel, Datblygu Sgiliau a Gwaith Teg'. Mae cael gweithlu medrus yn angenrheidiol i ddatblygu economi Cymru yn llwyddiannus. Mae graddedigion yn rhan hanfodol o'r gweithlu hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i flaenoriaethu cymorth i'r rhai sy'n ymgymryd â'u cymhwyster addysg uwch cyntaf gan mai dyma sydd â’r effaith economaidd a chymdeithasol fwyaf.

Bydd parhau i ddarparu cymorth cyfrannu at gostau i fyfyrwyr Meistr ôl-raddedig i’w helpu i dalu ffioedd a threuliau byw yn galluogi myfyrwyr o bob cefndir i ddilyn addysg ôl-raddedig a buddsoddi yn eu dyfodol eu hunain.

Mae disodli grant gyda benthyciad yn hytrach na'i ddileu yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi myfyrwyr Meistr ôl-raddedig newydd gyda heriau costau byw a'u hamddiffyn rhag yr anawsterau a wynebir o ganlyniad i’r pwysau chwyddiant presennol.

Ni fydd unrhyw effaith incwm negyddol yn cael ei phrofi gan fyfyrwyr PGM yn y tymor byr, ond yn y tymor hir, gan nad yw uchafswm gwerth y cymorth sydd ar gael yn cael ei effeithio gan ddileu'r hawl i grant, dim ond gwerth y benthyciad i'w ad-dalu fydd yn newid yn

sylweddol. Mae hyn yn golygu y bydd dyledion myfyrwyr yn debygol o gynyddu. Gall myfyrwyr ddewis faint o fenthyciad y maent yn ei gael hyd at uchafswm gwerth y cymorth wrth wneud eu penderfyniadau ar fuddsoddi mewn addysg ôl-raddedig.

Mae ad-dalu benthyciadau yn ddibynnol ar incwm. Mae hyn yn golygu nad fydd cynnydd mewn dyled myfyrwyr yn arwain yn uniongyrchol at gynnydd mewn ad-daliadau. Bydd myfyrwyr PGM yn ad-dalu 6% o'u hincwm dros drothwy penodol. Ni fydd swm yr ad-daliad yn cynyddu oni bai bod incwm y benthyciwr yn cynyddu. Bydd y rhai sydd ag incwm is yn talu llai yn ôl na'r rhai ar incwm uwch. Mae natur flaengar y polisi ad-dalu yn lleihau effaith mwy o ddyled o ganlyniad i'r newid hwn.

## 8.4 Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo a phryd y bydd yn dod i ben?

Bydd monitro’r cymorth i fyfyrwyr yn barhaus, gan gynnwys newidiadau i gymorth graddau Meistr ôl-raddedig, yn parhau trwy Grŵp Defnyddwyr Rhagweld Cymorth i Fyfyrwyr mewnol Llywodraeth Cymru, sy'n cyfarfod o leiaf bob chwarter.

Mae'r holl drefniadau cymorth i fyfyrwyr yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac mae'r rheoliadau'n cael eu diweddaru yn unol â hynny, yn ôl yr angen.

# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

## Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

### Newid arfaethedig i bolisi

Mae pwysau cyllidebol wedi ysgogi adolygiad polisi o godiadau cymorth i fyfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 ac ystyriwyd gwahanol opsiynau a'u goblygiadau ariannol, ac o ran polisi a chyflawni. O ganlyniad, bydd y newidiadau canlynol i gymorth i fyfyrwyr yn digwydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25:

- Cynyddu cymorth i fyfyrwyr israddedig a doethurol yn unol â pholisi sefydledig; a
- Dileu'r grantiau sylfaenol a chyfrannu at gostau o becyn cymorth graddau Meistr ôl-raddedig ('PGM') er mwyn gwireddu arbedion; a lliniaru'r gwahaniaeth gyda benthyciad. Bydd uchafswm gwerth y cymorth yn cael ei gynyddu yn unol â pholisi sefydledig.

Mae cynyddu cyfraddau cymorth i fyfyrwyr yn seiliedig ar bolisi hirsefydlog ac nid oes angen asesiad effaith ar gyfer yr opsiwn hwn.

Mae'r asesiad hwn yn canolbwyntio ar effaith dileu'r hawl i grant o gymorth PGM i fyfyrwyr, sy'n newid i'r polisi presennol. Bydd y newid polisi hwn yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gorau i gynnig y ddau grant ac yn cynnig benthyciad ychwanegol yn lle i fyfyrwyr newydd. Ar wahân i Grantiau Myfyrwyr Anabl, ni fydd unrhyw grantiau'n cael eu cynnig i fyfyrwyr PGM. Mae polisi tebyg yn cael ei weithredu yn Lloegr.

Bydd angen newidiadau rheoleiddiol i alluogi'r newid polisi i gael ei weithredu. Disgwylir i reoliadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru ym mis Ebrill 2024. Yna bydd y newid polisi hwn yn berthnasol i'r rhai sy'n dechrau cwrs PGM ar ôl 1 Awst 2024.

**Dadansoddiad o effaith, argaeledd data a modelu**

Mae'n anodd asesu'r effeithiau ar gydraddoldeb o ran dileu hawl i grant i gyfraddau cymorth PGM. Nid yw modelu meintiol o'r effaith yn bosibl gan fod argaeledd data yn gyfyngedig.

Fodd bynnag, mae ymchwil gyfoes ar gael ar yr effeithiau gwahanol sy'n deillio o bwysau costau byw ar y boblogaeth ledled y DU. Mae peth ymchwil sydd ar gael yn benodol i'r effaith ar fyfyrwyr, h.y. arolygon myfyrwyr, tra bod y rhan fwyaf o ymchwil yn gyffredinol ar yr effaith ar aelwydydd ledled poblogaeth y DU. Defnyddiwyd canfyddiadau'r ymchwil fel rhan o'r asesiad risg hwn fel tystiolaeth i ddangos pa effaith y gallai dileu'r hawl i grant ei chael ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

## Effaith

*Cyffredinol*

Nid oes unrhyw effaith ar fyfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau. Rhagwelir y bydd 6,622 o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn dilyn cwrs PGM a'u hariannu gan Weinidogion Cymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25; o'r ffigwr hwn, mae 4,104 yn fyfyrwyr sy’n parhau â’u hastudiaethau. Mae cymorth PGM yn gynnyrch 'gwneud cais unwaith'; mae'r cymorth fesul cwrs, fel sy'n wir am gymorth i israddedigion, fesul blwyddyn academaidd. Rhaid i fyfyrwyr wneud cais am gymorth heb fod yn hwyrach na diwedd nawfed mis blwyddyn academaidd olaf y cwrs ac felly gellir derbyn ceisiadau gan y rhai sy'n dechrau cwrs cyn 1 Awst 2024 am rai blynyddoedd eto (gellir ymgymryd â chyrsiau PGM sydd hyd at ddwy flynedd (amser llawn) neu bedair blynedd (rhan-amser) o ran hyd, ond bydd cymorth fel myfyriwr sy’n parhau â’u hastudiaethau yn dod i ben os na ellir cwblhau'r cwrs PGM o fewn yr amserlenni a nodwyd). Fodd bynnag, bydd myfyrwyr sy’n parhau â’u hastudiaethau yn dal i fod yn gymwys i gael grantiau gan fod cymorth PGM wedi'i angori pan fyddant yn dechrau ar y cwrs, nid pan fyddant yn cyflwyno cais am gymorth.

Mae myfyrwyr PGM blaenorol wedi elwa o'r un uchafswm gwerth y cymorth, er y gallai hyn fod wedi cynnwys rhaniad grant / benthyciad. Ni fydd gan bob myfyriwr newydd o Gymru ar gyrsiau PGM sy'n dechrau ar 1 Awst 2024, neu wedi hynny, fynediad at grant mwyach, ond byddant yn parhau i elwa o'r un uchafswm o gymorth cyffredinol. Gweler y tabl isod:

| | **Cyrsiau sy'n dechrau cyn 1 Awst 2024** | **Cyrsiau sy'n dechrau ar ôl 1 Awst 2024** |
|---|---|---|
| **Uchafswm lefel y cymorth ar gyfer cyrsiau PGM** | £18,770<br>Cyfradd cymorth unigol ar gyfer pob myfyriwr. | £18,950<br>Cyfradd cymorth unigol ar gyfer pob myfyriwr. |
| **Grant cyfrannu at gostau** | Hyd at £5,885 (â phrawf modd) | AMHERTHNASOL |
| **Grant Sylfaenol** | £1,000 (heb brawf modd) | AMHERTHNASOL |
| **Uchafswm benthyciad cynnal a chadw** | Hyd at £17,770, yn dibynnu ar swm y grant. | Hyd at £18,950 |

Mae codi lefel uchaf y cymorth gan RPIX, yn unol â pholisi sefydledig, o fudd i bob

myfyriwr PGM. Cafodd cymorth PGM ei godi 1.8% ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau ar 1 Awst 2023 neu wedi hynny; roedd hyn yn unol â'r amcangyfrifon o ragolygon ar gyfer y flwyddyn hyd at Ch1 2024 fel y'u cyhoeddwyd gan yr OBR ym mis Mawrth 2022. Ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau ar 1 Awst 2024 neu wedi hynny, bydd cymorth PGM yn cynyddu 0.9% yn unol ag amcangyfrifon o'r rhagolygon ar gyfer y flwyddyn hyd at Ch1 2025.

Mae’r polisi yn adlewyrchu newidiadau chwyddiant i nwyddau a gwasanaethau o flwyddyn i flwyddyn yng ngwerth y cymorth; mae hyn yn arbennig o bwysig i fyfyrwyr ar adeg pan fyddant yn parhau i brofi pwysau costau byw cynyddol.

Mae perygl y bydd dileu’r grantiau a chynyddu benthyciadau (ac felly cynyddu’r gost o astudio PGM i lawer o fyfyrwyr), yn atal rhai darpar fyfyrwyr rhag ymgymryd â chwrs ôl-raddedig – dyma effaith ddatgymhellol. Mae data cofrestriadau o 2021/22 yn nodi grwpiau allweddol a allai gael eu datgymell o bosibl, gan gynnwys myfyrwyr anabl (19% o gofrestriadau PGM), pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (9% o gofrestriadau PGM), a menywod (63% o'r cofrestriadau). Gallai darpar fyfyrwyr o aelwydydd incwm isel hefyd gael eu rhwystro.  Nid yw'n bosibl mesur yr effaith ddatgymhellol hon. Fodd bynnag, bydd lliniaru disodli’r grantiau gyda benthyciadau yn golygu na fydd myfyrwyr newydd yn colli unrhyw incwm wrth astudio o'i gymharu â charfannau blaenorol. Gall hyn leihau'r effaith ddatgymhellol. Yn ogystal, mae Gweinidogion Cymru yn lliniaru’r polisi mewn perthynas â chymorth PGM drwy ddarparu gwerth cymorth llawer mwy hael i fyfyrwyr o'i gymharu â'u cyfoedion yn Lloegr (ar gyfer y flwyddyn academaidd 23/24, dim ond uchafswm gwerth cymorth o £12,167 y gallai myfyrwyr yn Lloegr ei gael; nid yw Llywodraeth y DU yn darparu grant fel rhan o'u pecyn cymorth PGM). Gall hyn hefyd leihau'r effaith ddatgymhellol.

*Dileu'r grant sylfaenol a'r grant cyfrannu at gostau*

Rhagwelir y bydd 2,518 o fyfyrwyr newydd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024/25. Mae cael dileu’r grant sylfaenol (£1,000) o'r pecyn cymorth PGM ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau ar 1 Awst 2024 neu wedi hynny yn effeithio ar bob myfyriwr newydd. Mae lliniaru’r gwahaniaeth trwy gynnig benthyciad ychwanegol, yn gwrthbwyso'r gostyngiad hwn mewn cymorth a fyddai fel arall yn wynebu myfyrwyr newydd. Fodd bynnag, mae'n golygu bod pob myfyriwr sy'n dechrau ar gwrs PGM ar 1 Awst 2024 neu wedi hynny yn debygol o orfod ad-dalu gwerth benthyciad uwch o'i gymharu â myfyrwyr a ddechreuodd ar gwrs PGM y flwyddyn flaenorol. Nid oes angen i fyfyriwr gymryd y benthyciad mwyaf; mae'n bosibl y bydd rhai myfyrwyr yn dewis benthyciad llai yn absenoldeb cymorth grant.

Roedd gan fyfyrwyr a ddechreuodd gwrs PGM ym mlwyddyn academaidd 2023/24 hawl i grant cyfrannu at gostau o hyd at £5,885 yn dibynnu ar **incwm eu haelwyd**. Yna ychwanegwyd at weddill y cymorth gan swm benthyciad o hyd at £18,770 (uchafswm gwerth y cymorth). Mae cyfrifo incwm aelwyd ond yn pennu rhaniad benthyciad/grant y myfyriwr, yn hytrach nag uchafswm gwerth y cymorth sydd ar gael. Ar gyfer myfyrwyr ar gyrsiau PGM sy'n dechrau ar 1 Awst 2024 neu wedi hynny, ni fydd y grant cyfrannu at gostau ar gael mwyach. Ni fydd swm y cymorth yn gostwng: bydd myfyrwyr yn dal i fod â

hawl i gyfanswm y cymorth gan y bydd dileu grantiau'n cael eu lliniaru trwy gynnig benthyciad ychwanegol yn lle hynny.

Dangosodd data a ddarparwyd gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr fod 4,135 o fyfyrwyr wedi derbyn y grant cyfrannu at gostau ym mlwyddyn academaidd 2022/23.

Bydd yn rhaid i fyfyrwyr PGM o aelwydydd incwm isel sy'n dechrau cwrs ar 1 Awst 2024 neu wedi hynny ad-dalu gwerth benthyciad uwch o'i gymharu â myfyrwyr o aelwydydd incwm isel a ddechreuodd gwrs PGM y flwyddyn flaenorol. Yn ogystal, gan y bydd y grant sylfaenol hefyd yn cael ei ddileu, bydd myfyrwyr o aelwydydd incwm isel yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan ddileu'r hawl i grant (grant sylfaenol a grant cyfrannu at gostau) o'u cymharu â'u cyfoedion o aelwydydd incwm uwch ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod (a fydd ond yn profi effaith dileu'r grant sylfaenol).

Merched yw'r mwyafrif o fyfyrwyr sy'n dilyn cwrs meistr ôl-raddedig. Mae dadansoddiad o dueddiadau yn dangos mai merched, ar gyfartaledd, yw 66% o'r garfan o fyfyrwyr. Felly, bydd dileu'r hawl i grant yn debygol o effeithio'n anghymesur ar fyfyrwyr benywaidd o gymharu â myfyrwyr gwrywaidd. Mae'n debygol y bydd effaith ddwbl yma i'r myfyrwyr benywaidd hynny sydd hefyd o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig a/neu aelwydydd incwm isel.

Mae'r rhai sy'n ymadawyr gofal yn grŵp sy'n derbyn triniaeth benodol o fewn y polisi cymorth i fyfyrwyr. O dan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019, mae ymadawyr gofal yn gymwys yn benodol ar gyfer y grant llawn beth bynnag yw incwm eu haelwyd, mewn cydnabyddiaeth o'u cyfranogiad gwael yn gyffredinol mewn addysg ôl-orfodol. Nid oes digon o ddata ar gael ar ymadawyr gofal, ond amcangyfrifir y gallai fod rhwng 25 a 40 o ymadawyr gofal yn derbyn y grantiau cyfrannu at gostau llawn bob blwyddyn. Felly, bydd dileu'r hawl i grant yn effeithio'n benodol ar y myfyrwyr hyn, er y bydd cyfanswm cyffredinol y cymorth yn aros yr un fath (fel y disgrifir uchod).

Mae'n anodd iawn canfod yr effaith ar y rhai sy'n derbyn budd-daliadau nawdd cymdeithasol, gan y bydd yn dibynnu ar lawer o ffactorau. Mae cymorth i fyfyrwyr yn cael ei drin fel incwm heb ei ennill ac mae budd-daliadau yn cael eu lleihau yn unol â'r rheolau a nodir mewn deddfwriaeth. Felly, gall yr effaith fod yn gymysg.

*Baich dyled*

Ni fydd unrhyw effaith incwm negyddol yn cael ei phrofi gan fyfyrwyr PGM yn y tymor byr, ond yn y tymor hir, gan nad yw uchafswm gwerth y cymorth sydd ar gael yn cael ei effeithio gan ddileu'r hawl i grant, dim ond gwerth y benthyciad i'w ad-dalu fydd yn newid yn sylweddol. Mae hyn yn golygu y bydd dyledion myfyrwyr yn debygol o gynyddu, fodd bynnag, gall myfyrwyr ddewis faint o fenthyciad y maent yn ei gael hyd at uchafswm gwerth y cymorth.

Mae ad-dalu benthyciadau yn ddibynnol ar incwm. Mae hyn yn golygu na fydd cynnydd mewn dyled myfyrwyr yn arwain yn uniongyrchol at gynnydd mewn ad-daliadau. Mae

myfyrwyr PGM yn ad-dalu 6% o'u hincwm uwchben trothwy penodedig (mae **gwefan Gov.UK** yn nodi rhagor o wybodaeth am ad-dalu benthyciadau myfyrwyr Meistr Ôl-raddedig, gan gynnwys trothwy ad-dalu enillion). Ni fydd swm yr ad-daliad yn cynyddu oni bai bod incwm y benthyciwr yn cynyddu. Bydd y rhai sydd ag incwm is yn talu llai yn ôl na'r rhai ar incwm uwch. Mae natur flaengar y polisi ad-dalu yn lleihau'r effaith o fwy o ddyled o ganlyniad i'r newid hwn.

Fodd bynnag, gall myfyrwyr sy'n cael mynediad at gymorth PGM ar gyfer cwrs sy'n dechrau ar 1 Awst 2024 neu wedi hynny gymryd mwy o amser i ad-dalu eu benthyciadau myfyrwyr nag y byddent fel arall, neu sy'n fwy tebygol o barhau i ad-dalu eu benthyciad myfyriwr am gyfnod llawn tymor y benthyciad (30 mlynedd). Mae gan hyn y potensial i effeithio ar incwm y benthyciwr sydd ar gael yn y dyfodol.

*Aelwydydd incwm isel – effaith costau byw.*

Mae'n debygol y bydd dileu'r hawl i grant o gymorth PGM yn effeithio fwyaf ar y rhai o aelwydydd incwm isel. Gan y gallai fod gan lawer o'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig incwm isel, mae'n dilyn y gallai fod effaith anghymesur ar rai grwpiau. Mae tystiolaeth / ymchwil sylweddol yn amlygu'r heriau sylweddol a brofir gan aelwydydd incwm isel a'r rhai â nodweddion gwarchodedig ac mae'r rhain wedi'u crynhoi'n fyr yn y paragraffau canlynol.

Canfu'r **Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol** fod 'biliau cynyddol a lefelau dyled oherwydd pwysau costau byw wedi taro aelwydydd yn hanner isaf y dosbarthiad incwm galetaf, gan arwain at ddiffyg yn eu hincwm gwario go iawn o hyd at 17% dros y cyfnod 2019-2024.

Mae **Sefydliad Bevan** yn tynnu sylw at y ffaith bod 15% o aelwydydd yn ei chael hi'n anodd fforddio eitemau hanfodol, tra bod gan 33% arall ddigon ar gyfer y pethau sylfaenol ond ychydig arall. Mae pedwar grŵp yn wynebu'r perygl mwyaf o galedi ariannol: rhentwyr; pobl anabl y mae eu nam yn cyfyngu arnynt gryn dipyn; rhieni plant o dan 18 oed; a phobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau etifeddol.

Mae **ymchwil y Senedd** yn nodi bod chwyddiant wedi gostwng yn araf yn ystod 2023 ac mae disgwyl iddo aros yn uwch am gyfnod hirach. Er bod chwyddiant wedi gostwng i lai na 5%, ni ragwelir y bydd yn dychwelyd i darged Banc Lloegr o 2% tan hanner cyntaf 2025 – fwy na blwyddyn yn hwyrach na'r hyn a ragolygwyd ym mis Mawrth yn gynharach eleni. Mae'r gyfradd y mae prisiau bwyd yn cynyddu (yn ôl adroddiad **y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr**) wedi arafu ond mae'n dal yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.

Amlygodd **ymchwil y Senedd** fod bywyd yn ddrytach i bobl anabl a'u teuluoedd. Mae'n rhaid iddynt wario mwy ar nwyddau a gwasanaethau hanfodol fel gwresogi, yswiriant, offer arbenigol, trafnidiaeth hygyrch, bwyd a therapïau arbenigol. Mae llawer o bobl anabl yn dibynnu ar dacsis neu gerbydau wedi'u haddasu i'w cludo, ac yn aml maent yn wynebu

costau uwch am nwy a thrydan. Mae angen gwresogi ychwanegol ar lawer i gadw eu tymheredd yn sefydlog, ac mae'n rhaid iddynt ddefnyddio mwy o drydan i bweru a chodi eitemau hanfodol o dechnoleg gynorthwyol. Mae angen ynni ychwanegol ar gyfer pweru offer hanfodol fel peiriannau codi, gwelyau, offer anadlu, cadeiriau a monitorau wedi'u pweru.

Mae **ymchwil gan y Senedd** hefyd wedi nodi bod menywod, yn enwedig y rhai o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, menywod anabl a rhieni unigol, yn fwy tebygol o fod yn gweithio mewn swyddi ansicr, cyflog isel, yn aml yn jyglo gwaith â thâl gyda chyfrifoldebau gofalu di-dâl, ac mae ganddynt lefelau is o gyfoeth ac arbedion. Mae'r ffactorau hyn i gyd yn eu gadael yn fwy agored i'r argyfwng costau byw.

Canfu **Ymddiriedolaeth Runnymede**, yng Nghymru, fod y tebygolrwydd y bydd pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn tlodi cymharol 3.5 gwaith yn uwch na phobl wyn, a bod y bwlch economaidd y mae pobl o leiafrifoedd ethnig yn ei wynebu wedi ehangu ers argyfwng ariannol 2008. Mae hyn yn gadael pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn anghymesur yn agored i anawsterau costau byw.

**Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig**:

| **Nodwedd neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut fyddwch chi'n lleihau effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Oedran | Gall dileu'r hawl i grant o gymorth PGM effeithio'n negyddol ar bob myfyriwr newydd o unrhyw oedran. Fodd bynnag, er mwyn bod yn gymwys am gyllid PGM, rhaid i fyfyrwyr cymwys fod o dan 60 oed ar ddiwrnod cyntaf y cwrs. | Mae cymorth ar gael i fyfyrwyr o dan 60 oed. Dyma'r polisi cyfredol ar gyfer cymorth PGM ac nid yw wedi newid.<br><br>Yn 2021/22, cofrestrodd 195 o fyfyrwyr 60 oed neu hŷn. *Nid oedd y rhain yn gymwys i gael cymorth PGM.*<br><br>Nid yw dileu'r hawl i grant yn effeithio ar uchafswm gwerth y cymorth sydd ar gael. I'r rhai a fyddai fel arall wedi cael rhaniad | Bydd dileu'r grant yn cael ei liniaru gan fenthyciad ychwanegol sydd hyd at uchafswm gwerth y cymorth.<br><br>Bydd cynnydd i uchafswm gwerth y cymorth PGM yn unol â pholisi sefydledig yn lliniaru'r newidiadau chwyddiant i gostau nwyddau a gwasanaethau.<br><br>Bydd y polisi ad-dalu yn lliniaru'r effaith o fwy o |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lleihau effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | grant/benthyciad, yn lle hynny byddant yn cael benthyciad sydd hyd at uchafswm gwerth y cymorth (yn yr un modd ag y byddai myfyriwr nad oedd yn gymwys am grant o'r blaen wedi cael benthyciad).<br><br>Bydd myfyrwyr PGM sy'n dechrau cwrs ar 1 Awst 2024 neu wedi hynny yn gorfod ad-dalu gwerth benthyciad uwch o'i gymharu â myfyrwyr cymwys a ddechreuodd gwrs PGM y flwyddyn flaenorol.<br><br>Mae dileu'r hawl i grant o ganlyniad i bwysau cyllidebol sylweddol ar Lywodraeth Cymru. | ddyled.<br><br>Nid oes unrhyw fesurau lliniaru pellach ar gael. |
| Anabledd | Gall dileu'r hawl i grant o gymorth PGM effeithio'n negyddol ac anghymesur ar y rhai sydd â'r nodwedd warchodedig hon.<br><br>Mae'n rhaid i fyfyrwyr anabl wario mwy ar nwyddau a gwasanaethau hanfodol fel gwresogi, yswiriant, offer arbenigol, trafnidiaeth hygyrch, | Nid yw dileu'r hawl i grant yn effeithio ar uchafswm gwerth y cymorth sydd ar gael. I'r rhai a fyddai fel arall wedi cael rhaniad grant/benthyciad, yn lle hynny byddant yn cael benthyciad sydd hyd at uchafswm gwerth y cymorth (yn yr un modd ag y byddai myfyriwr nad oedd yn gymwys am grant o'r blaen wedi | Bydd dileu'r grant yn cael ei liniaru gan fenthyciad ychwanegol sydd hyd at uchafswm gwerth y cymorth.<br><br>Bydd cynnydd i uchafswm gwerth y cymorth PGM yn unol â pholisi sefydledig yn lliniaru'r newidiadau chwyddiant i gostau nwyddau a gwasanaethau. |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lleihau effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | bwyd a therapïau arbenigol sydd wedi bod yn destun cynnydd chwyddiant sylweddol.<br><br>Bydd effaith hirdymor gan y bydd gwerth cynyddol y benthyciad (er mwyn liniaru dileu'r grant) yn effeithio ar faint o amser y gall ei gymryd i ad-dalu'r benthyciad myfyrwyr (os yw eu henillion yn y dyfodol yn uwch na'r trothwy benthyciad myfyrwyr).<br><br>Efallai yr effeithir ar y rhai sy'n ymgymryd ag astudiaethau Meistr ôl-raddedig sydd â'r nodwedd warchodedig hon. | cael benthyciad).<br><br>Bydd myfyrwyr PGM sy'n dechrau cwrs ar 1 Awst 2024 neu wedi hynny yn gorfod ad-dalu gwerth benthyciad uwch o'i gymharu â myfyrwyr cymwys a ddechreuodd gwrs PGM y flwyddyn flaenorol.<br><br>Mae dileu'r hawl i grant o ganlyniad i bwysau cyllidebol sylweddol ar Lywodraeth Cymru.<br><br>Roedd 19% o gofrestriadau PGM gan fyfyrwyr y gwyddys eu bod ag un neu fwy o amhariadau.<br><br>Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o gofnod myfyrwyr HESA ar gyfer 2021/22 | Bydd y polisi ad-dalu yn lliniaru'r effaith o fwy o ddyled.<br><br>Mae gan fyfyrwyr anabl fynediad at becyn o grantiau nad ydynt yn ad-daladwy sydd ar gael gan Weinidogion Cymru. Mae hyn yn darparu ar gyfer gwariant sy'n ofynnol ar gynorthwyydd personol anfeddygol, eitemau mawr o offer arbenigol a gwariant perthnasol arall.<br><br>Nid oes unrhyw fesurau lliniaru pellach ar gael. |
| Ailbennu rhywedd | Nid yw'n bosibl sefydlu a fydd y penderfyniad i ddileu'r hawl i grant o gymorth PGM yn cael effaith wahaniaethol ar y rhai sydd â'r nodwedd warchodedig hon. | Roedd 9% o gyfanswm y cofrestriadau PGM yn 2021/22 gan fyfyrwyr nad oedd eu statws hunaniaeth rhywedd yn hysbys. O'r 12,925 o gofrestriadau PGM oedd yn weddill, roedd 99% o'r cofrestriadau gan fyfyrwyr a nododd fod eu hunaniaeth rhywedd | Nid oes angen unrhyw liniaru. |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lleihau effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | yr un fath â'r rhyw a neilltuwyd yn wreiddiol iddynt adeg eu geni.<br><br>Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o gofnod myfyrwyr HESA ar gyfer 2021/22 | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Nid yw'n bosibl sefydlu a fydd y penderfyniad i ddileu'r hawl i grant o gymorth PGM yn cael effaith wahaniaethol ar y rhai sydd â'r nodwedd warchodedig hon. | Nid oes digon o dystiolaeth am sefyllfa beichiogrwydd neu famolaeth myfyrwyr i sefydlu unrhyw bwyntiau cyffredinol am y boblogaeth hon. | Nid oes angen unrhyw liniaru. |
| Hil | Gall dileu'r hawl i grant o gymorth PGM effeithio'n negyddol ac anghymesur ar y rhai sydd â'r nodwedd warchodedig hon.<br><br>Bydd effaith hirdymor gan y bydd gwerth cynyddol y benthyciad (er mwyn liniaru dileu'r grant) yn effeithio ar faint o amser y gall ei gymryd i ad-dalu'r benthyciad myfyrwyr (os yw eu henillion yn y dyfodol yn uwch na'r trothwy benthyciad myfyrwyr).<br><br>Efallai yr effeithir ar y | Nid yw dileu'r hawl i grant yn effeithio ar uchafswm gwerth y cymorth sydd ar gael. I'r rhai a fyddai fel arall wedi cael rhaniad grant/benthyciad, yn lle hynny byddant yn cael benthyciad sydd hyd at uchafswm gwerth y cymorth (yn yr un modd ag y byddai myfyriwr nad oedd yn gymwys am grant o'r blaen wedi cael benthyciad).<br><br>Bydd myfyrwyr PGM sy'n dechrau cwrs ar 1 Awst 2024 neu wedi hynny yn gorfod ad-dalu | Bydd dileu'r grant yn cael ei liniaru gan fenthyciad ychwanegol sydd hyd at uchafswm gwerth y cymorth.<br><br>Bydd cynnydd i uchafswm gwerth y cymorth PGM yn unol â pholisi sefydledig yn lliniaru'r newidiadau chwyddiant i gostau nwyddau a gwasanaethau.<br><br>Bydd y polisi ad-dalu yn lliniaru'r effaith o fwy o ddyled.<br><br>Nid oes unrhyw fesurau lliniaru pellach ar gael. |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lleihau effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | rhai sydd â'r nodwedd warchodedig hon sy'n cymryd rhan mewn astudiaethau Meistr ôl-raddedig. Os caiff darpar fyfyrwyr eu datgymell, gallai hyn leihau'r canran fach o bobl o leiafrifoedd ethnig sy'n dilyn cyrsiau PGM. Gallai hyn yn ei dro gyfyngu ar y cyfle i unigolion o gefndiroedd amrywiol ddod yn fodelau rôl, mentoriaid ac arweinwyr ac ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol. | gwerth benthyciad uwch o'i gymharu â myfyrwyr cymwys a ddechreuodd gwrs PGM y flwyddyn flaenorol.<br><br>Mae dileu'r hawl i grant o ganlyniad i bwysau cyllidebol sylweddol ar Lywodraeth Cymru.<br><br>Yn ôl Ymddiriedolaeth Runnymede, yng Nghymru, mae'r tebygolrwydd y bydd pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn tlodi cymharol 3.5 gwaith yn uwch na phobl wyn.<br><br>Ffynhonnell: 633d8007a3bfa49bd4cd0fa8_Runnymede Briefing Cost of Living FINAL.pdf (website-files.com)<br><br>Roedd 9% o'r cofrestriadau PGM lle gwyddid ethnigrwydd myfyrwyr yn dod o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.<br><br>Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o gofnod myfyrwyr HESA ar gyfer 2021/22 | |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lleihau effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Crefydd, cred ac anghrediniaeth | Nid yw'n bosibl sefydlu a fydd y penderfyniad i ddileu'r hawl i grant o gymorth PGM yn cael effaith wahaniaethol ar y rhai sydd â'r nodwedd warchodedig hon.<br><br>Credir bod y polisi cymorth i fyfyrwyr presennol yn atal myfyrwyr o'r ffydd Fwslimaidd rhag ymgymryd ag addysg uwch. Nid yw benthyciadau yn cydymffurfio â chyfraith Sharia, sy'n golygu y gallai fod yn rhaid iddynt ddibynnu ar ffynonellau eraill o gyllid, a allai fod yn llai dibynadwy. | Nid yw dileu'r hawl i grant yn effeithio ar uchafswm gwerth y cymorth sydd ar gael. I'r rhai a fyddai fel arall wedi cael rhaniad grant/benthyciad, yn lle hynny byddant yn cael benthyciad sydd hyd at uchafswm gwerth y cymorth (yn yr un modd ag y byddai myfyriwr nad oedd yn gymwys am grant o'r blaen wedi cael benthyciad).<br><br>Bydd myfyrwyr PGM sy'n dechrau cwrs ar 1 Awst 2024 neu wedi hynny yn gorfod ad-dalu gwerth benthyciad uwch o'i gymharu â myfyrwyr cymwys a ddechreuodd gwrs PGM y flwyddyn flaenorol.<br><br>Mae dileu'r hawl i grant o ganlyniad i bwysau cyllidebol sylweddol ar Lywodraeth Cymru.<br><br>Roedd 9% o gyfanswm cofrestriadau PGM 2021/22 gan fyfyrwyr nad oedd eu crefydd yn hysbys. O'r cofrestriadau PGM sy'n weddill, roedd 60% o'r cofrestriadau gan | Bydd cynnydd i uchafswm gwerth y cymorth PGM yn unol â pholisi sefydledig yn lliniaru'r newidiadau chwyddiant i gostau nwyddau a gwasanaethau.<br><br>Bydd y polisi ad-dalu yn lliniaru'r effaith o fwy o ddyled.<br><br>Nid oes unrhyw fesurau lliniaru pellach ar gael. |

| **Nodwedd neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut fyddwch chi'n lleihau effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| | | fyfyrwyr nad oedd ganddynt grefydd, 31% gan Gristnogion, ac roedd 3% gan Fwslimiaid.<br><br>Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o gofnod myfyrwyr HESA ar gyfer 2021/22 | |
| Rhyw / Rhywedd | Gall dileu’r hawl i grant o gymorth PGM effeithio'n negyddol ac anghymesur ar y rhai sydd â'r nodwedd warchodedig hon.<br><br>Bydd effaith hirdymor gan y bydd gwerth cynyddol y benthyciad (er mwyn lliniaru dileu’r grant) yn effeithio ar faint o amser y gall ei gymryd i ad-dalu'r benthyciad myfyrwyr (os yw eu henillion yn y dyfodol yn uwch na'r trothwy benthyciad myfyrwyr).<br><br>Efallai yr effeithir ar ferched sy’n ymgymryd ag astudiaethau Meistr ôl-raddedig yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, merched yw'r mwyafrif o'r rhai sy'n ymgymryd â | Nid yw dileu’r hawl i grant yn effeithio ar uchafswm gwerth y cymorth sydd ar gael. I'r rhai a fyddai fel arall wedi cael rhaniad grant/benthyciad, yn lle hynny byddant yn cael benthyciad sydd hyd at uchafswm gwerth y cymorth (yn yr un modd ag y byddai myfyriwr nad oedd yn gymwys am grant o'r blaen wedi cael benthyciad).<br><br>Bydd myfyrwyr PGM sy'n dechrau cwrs ar 1 Awst 2024 neu wedi hynny yn gorfod ad-dalu gwerth benthyciad uwch o'i gymharu â myfyrwyr cymwys a ddechreuodd gwrs PGM y flwyddyn flaenorol.<br><br>Mae dileu’r hawl i grant | Bydd dileu'r grant yn cael ei liniaru gan fenthyciad ychwanegol sydd hyd at uchafswm gwerth y cymorth.<br><br>Bydd cynnydd i uchafswm gwerth y cymorth PGM yn unol â pholisi sefydledig yn lliniaru’r newidiadau chwyddiant i gostau nwyddau a gwasanaethau.<br><br>Bydd y polisi ad-dalu yn lliniaru’r effaith o fwy o ddyled.<br><br>Nid oes unrhyw fesurau lliniaru pellach ar gael. |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lleihau effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | rhaglen astudio ar lefel meistr. | o ganlyniad i bwysau cyllidebol sylweddol ar Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae pwysau costau byw yn effeithio'n anghymesur ar fenywod. Mae hyn oherwydd anghydraddoldebau yn y farchnad lafur ac oherwydd bod menywod fel arfer yn gwario mwy o'u hincwm ar nwyddau cartref fel bwyd. I fenywod â nodweddion gwarchodedig eraill, yn enwedig menywod Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, menywod anabl a’r rhai sy'n rhiant unigol, mae'r effeithiau'n debygol o fod hyd yn oed yn fwy difrifol.<br><br>Roedd 37% o'r cofrestriadau PGM gan fyfyrwyr gwrywaidd ac roedd 63% o'r cofrestriadau gan fyfyrwyr benywaidd.<br><br>Rhwng 2017/18 a 2021/22, ar gyfartaledd, roedd dwy ran o dair o fyfyrwyr yn ferched.<br><br>Ffynhonnell: Dadansoddiad | |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lleihau effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | Llywodraeth Cymru o gofnod myfyrwyr HESA ar gyfer 2021/22 | |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Nid yw'n bosibl sefydlu a fydd y penderfyniad i ddileu'r hawl i grant o gymorth PGM yn cael effaith wahaniaethol ar y rhai sydd â'r nodwedd warchodedig hon. | Roedd 12% o gyfanswm y cofrestriadau PGM yn 2021/22 gan fyfyrwyr nad oedd eu cyfeiriadedd rhywiol yn hysbys. O'r 12,475 oedd yn weddill, roedd 89% o'r cofrestriadau gan fyfyrwyr heterorywiol, 4% gan fyfyrwyr cyfunrywiol ac roedd 6% gan fyfyrwyr deurywiol.<br><br>Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o gofnod myfyrwyr HESA ar gyfer 2020/21 | Nid oes angen unrhyw liniaru. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Nid yw'n bosibl sefydlu a fydd y penderfyniad i ddileu'r hawl i grant o gymorth PGM yn cael effaith wahaniaethol ar y rhai sydd â'r nodwedd warchodedig hon. | Nid oes digon o dystiolaeth ar statws priodasol myfyrwyr i sefydlu unrhyw bwyntiau cyffredinol am y boblogaeth hon. | Nid oes angen unrhyw liniaru. |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Nid yw'n bosibl sefydlu a fydd y penderfyniad i ddileu'r hawl i grant o gymorth PGM yn cael effaith wahaniaethol ar y rhai sydd â'r nodwedd | Nid oedd unrhyw gofrestriadau PGM gan fyfyrwyr o dan 18 oed yn 2021/22.<br><br>Ffynhonnell: Dadansoddiad | Nid oes angen unrhyw liniaru. |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lleihau effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | warchodedig hon. | Llywodraeth Cymru o gofnod myfyrwyr HESA ar gyfer 2020/21 | |
| Aelwydydd incwm isel | Byddai dileu’r hawl i grant o gymorth PGM yn effeithio'n negyddol ac anghymesur ar y rhai sydd â'r nodwedd warchodedig hon.<br><br>Bydd effaith hirdymor gan y bydd gwerth cynyddol y benthyciad (er mwyn lliniaru dileu’r grant) yn effeithio ar faint o amser y gall ei gymryd i ad-dalu'r benthyciad myfyrwyr (os yw eu henillion yn y dyfodol yn uwch na'r trothwy benthyciad myfyrwyr).<br><br>Efallai yr effeithir ar y rhai sy’n ymgymryd ag astudiaethau Meistr ôl-raddedig sydd â’r nodwedd warchodedig hon. | Nid yw dileu’r hawl i grant yn effeithio ar uchafswm gwerth y cymorth sydd ar gael. I'r rhai a fyddai fel arall wedi cael rhaniad grant/benthyciad, yn lle hynny byddant yn cael benthyciad sydd hyd at uchafswm gwerth y cymorth (yn yr un modd ag y byddai myfyriwr nad oedd yn gymwys am grant o'r blaen wedi cael benthyciad).<br><br>Bydd myfyrwyr PGM sy'n dechrau cwrs ar 1 Awst 2024 neu wedi hynny yn gorfod ad-dalu gwerth benthyciad uwch o'i gymharu â myfyrwyr cymwys a ddechreuodd gwrs PGM y flwyddyn flaenorol.<br><br>Mae dileu’r hawl i grant o ganlyniad i bwysau cyllidebol sylweddol ar Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae aelwydydd incwm isel sy’n disgyn i hanner isaf y dosbarthiad incwm wedi cael eu taro | Bydd dileu'r grant yn cael ei liniaru gan fenthyciad ychwanegol sydd hyd at uchafswm gwerth y cymorth.<br><br>Bydd cynnydd i uchafswm gwerth y cymorth PGM yn unol â pholisi sefydledig yn lliniaru’r newidiadau chwyddiant i gostau nwyddau a gwasanaethau.<br><br>Bydd y polisi ad-dalu yn lliniaru’r effaith o fwy o ddyled.<br><br>Nid oes unrhyw fesurau lliniaru pellach ar gael. |

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch chi'n lleihau effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | galetaf gan ostyngiad mewn cyflogau, biliau cynyddol a lefelau dyled oherwydd pwysau costau byw. Mae hyn wedi arwain at ddiffyg yn eu hincwm gwario go iawn. | |

## Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

A ydych chi'n credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl?

Mae gan y grwpiau dan sylw hawl i addysg o hyd, hyd yn oed os nad oes ganddynt hawl o reidrwydd i gael cymorth i fyfyrwyr. Nid yw'r newid i reoliadau cymorth i fyfyrwyr yn effeithio ar gymhwysedd i gael gafael ar gymorth, ond yn diwygio'r cynnyrch ariannol sydd ar gael (h.y. dileu grant PGM).